



TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

LLENYDDIAETH GYMRAEG

IONAWR 2020

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

TGAU Llenyddiaeth Gymraeg Uned 1
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

Ionawr 2020

Haen Sylfaenol

Y Sbectol Hud (Mererid Hopwood) a Cwestiynau Bach Mawr (Aneirin Karadog)

Yn gyffredinol, rhaid canmol yr ymgeiswyr ar eu llwyddiant wrth ymateb i'r ddwy gerdd eleni. Roedd y mwyafrif yn medru dangos dealltwriaeth o'r gerdd osod yn ogystal ag ymateb i'r ail gerdd, a hynny yn gymharol effeithiol. Y teimlad cyffredinol oedd bod yr ail gerdd wedi ennyn diddordeb yr ymgeiswyr eleni, lle roedd y mwyafrif wedi ymdrechu i ymateb yn ddeallus a thrafod y cynnwys, neges a'r mesur yn gymharol dda. Dyfarnwyd marciau llawn i ganran fechan o ymgeiswyr lle gwelwyd dadansoddi ac aeddfedwydd yn eu hatebion. Mae hyn yn awgrymu efallai eu bod wedi sefyll y papur anghywir, ac o bosib, y byddai papur yr haen uwch wedi bod yn fwy o her iddynt. O safbwynt strwythuro'r traethawd, yn gyffredinol, roedd y mwyafrif wedi llwyddo i drefnu eu gwaith yn effeithiol gan ddangos adeiladwaith a dilyniant pwrpasol. I'r gwrthwyneb, gwelwyd rhai canolfannau/ymgeiswyr yn ennill marciau is oherwydd diffyg manylder, yn enwedig wrth drafod y cynnwys neu'r arddull. Y teimlad oedd bod bylchau amlwg yn nhraethodau yr ymgeiswyr hynny ac nad oedd trafod y ddwy gerdd gyda'i gilydd, (o ran cynnwys, neges ac arddull) wedi llwyddo.

Cynnwys

O ran trafod cynnwys y cerddi, yr un yw'r neges eleni eto - sef pa mor bwysig yw trafod cynnwys y cerddi yn fanwl, fesul cwpled neu bennill. Rhaid cofio bod hanner marciau'r traethawd am drafod y cynnwys, felly mae angen i ymgeiswyr ddangos rhagor o fanylder. Gwnaeth rhai drafod cynnwys y cerddi yn fras iawn, rhai mewn paragraff yn unig ac yn naturiol felly, roedd hyn yn hepgor rhannau mawr o'r ddwy gerdd. Ar brydiau, roedd yna duedd i ddyfynnu'n helaeth o'r cerddi, heb wir ddangos dealltwriaeth. Gwelwyd nifer o ymgeiswyr o fewn un ganolfan yn mynd trwy pob llinell yn unigol e.e. 'Mae'r bardd yn dweud yn llinell un bod yr haul yn cuddio'r sêr. Mae'r bardd yn dweud yn llinell dau bod y nos ar goll.....' ac yn y blaen. Ni chymeradwyir yr arfer hwn.

Wedi dweud hynny, roedd mwyafrif o'r ymgeiswyr y tro hwn wedi defnyddio dyfyniadau byr a phwrpasol gan lwyddo i ddangos dealltwriaeth yn effeithiol. Roedd bron pob ymgeisydd wedi llwyddo i ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau, gyda'r goreuon, yn llwyddo i drafod y ddwy gerdd mewn manylder, fesul pob cwpled neu bennill.

Trafododd nifer o ymgeiswyr negeseuon a themâu y ddwy gerdd gan weld tebygrwydd a gwahaniaethau amlwg. Gwelodd bron pob ymgeisydd debygrwydd rhwng y cerddi o ran y thema dychymyg, gyda nifer fawr yn trafod dychymyg oedolyn yn 'Y Sbectol Hud' a dychymyg plentyn yn 'Cwestiynau Bach Mawr'. Braff oedd darllen rhai syniadau a sylwadau gwreiddiol iawn, lle gwelwyd cyffyrddiadau hyfryd yng ngwaith yr unigolion, sy'n dystiolaeth o hyfforddi trylwyr a digon o ymarfer.

Mae'n hynod bwysig i ymgeiswyr gofio cyflwyno eu gwaith yn drefnus oherwydd roedd ambell draethawd heb baragraffau, ond ar y llaw arall roedd eraill yn drefnus iawn wrth iddynt gyflwyno atebion strwythuredig a chydlynus.

Cafodd rhai ymgeiswyr eu hyfforddi gan ddefnyddio techneg Cynnwys, Arddull a Neges, a'r teimlad oedd bod hwn yn gymorth iddynt i drafod a dehongli'r cerddi'n fanylach, o gofio ystod gallu'r disgyblion sy'n sefyll y papur haen sylfaenol. Gwelwyd canran arall o ymgeiswyr yn strwythuro eu traethodau drwy ddilyn pwyntiau cymharu, ac er bod y dechneg hon yn medru arddangos gallu a tipyn o gynllunio, teimlwyd efallai fod hyn yn rhy heriol i nifer, a byddai trafod y cerddi yn unigol (cynnwys, arddull, neges) a chymharu wrth drafod yr ail gerdd, wedi bod yn fwy llwyddiannus.

Cymharu

Gwnaeth sawl ymgeisydd geisio cymharu'r ddwy gerdd â'i gilydd yn effeithiol iawn y tro hwn. Gwelwyd eraill yn trafod y gerdd gyntaf ac yna yn trafod cynnwys yr ail gerdd a chymharu yn yr adran hon. Llwyddodd eraill i gymharu yn ddigon effeithiol ar ddiwedd y traethawd. Ar y cyfan roedd y cymharu yn dda iawn gyda nifer o sylwadau gwreiddiol yn codi wrth i'r ymgeiswyr fynd ati i'w dehongli. Gwelwyd cymharu bron iawn ym mhob un o'r traethodau y tro hwn. Dangosodd y mwyafrif ddealltwriaeth o brif syniadau'r ddwy gerdd a medrodd canran uchel iawn gymharu'r ddwy yn effeithiol a phwrpasol. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi cysylltu'r ddwy gerdd o ran y thema dychymyg a byd natur. Ar y llaw arall gwelwyd rhai unigolion yn hepgor trafod canol yr ail gerdd gan ganolbwyntio'n unig ar ddechrau a diwedd y gerdd.

Arddull

Cyfeiriodd nifer o ymgeiswyr at o leiaf bedair nodwedd arddull. Roedd yr ymgeiswyr gorau, a oedd wedi trafod arddull yn dda iawn, wedi llwyddo hefyd i sôn am effeithiolrwydd y nodweddion yn hyderus a gwelwyd gwreiddioldeb a phwyntiau treiddgar.

Fodd bynnag, efallai y byddai'n syniad i hyfforddi ymgeiswyr y dyfodol i osgoi ystrydebau tebyg i'r rhai isod wrth drafod effeithiolrwydd nodweddion arddull.

'Mae'n gwneud i ni feddwl/eisiau darllen ymlaen.'

'Mae personoli'r niwl yn effeithiol iawn achos dydy niwl ddim yn fyw'

'creu llun yn y pen'

'Mae'r ansoddair yn effeithiol achos mae'n disgrifio beth yw beth'

'Mae'r trosiad yma'n effeithiol achos mae'n dweud fod rhywbeth yn rhywbeth arall.'

'Mae'n rhoi mwy o effaith i'r frawddeg'

'Plu yr eira – does gan eira ddim plu.'

'Mae'n effeithiol achos ei fod yn adio dyfnder i'r gerdd.'

Mae angen hefyd ceisio annog ymgeiswyr i ddefnyddio termau cywir gan fod nifer yn osgoi enwi'r dechneg a dim ond dweud roedd 'y gair' yn effeithiol.

e.e *'Nodwedd arddull bwysig ydy'r gair 'gwisga'.*

Y teimlad oedd bod adnabyddiaeth yr ymgeiswyr o arddull a'i effeithiolrwydd wedi gwella ac roedd nifer wedi sylweddoli bod angen trafod a disgrifio effaith yr arddull yn hytrach na nodi pedair nodwedd arddull yn unig.

Mesur

Ar y cyfan roedd pawb a soniodd am fesur y cerddi yn gywir wrth gyfeirio at 'Y Sbectol Hud' fel soned. Llwyddodd nifer fawr hefyd i sôn am y bardd yn newid cyfeiriad a chywair drwy ddefnyddio'r *volta* i atgyfnerthu'r trobwynt yn y gerdd. Roedd bron pawb wedi nodi bod y newid cywair/agwedd yn digwydd ar ôl y *volta* er bod amrywiaeth yn nyfnder atebion yr ymgeiswyr.

O ran mesur 'Cwestiynau Bach Mawr,' eto gwnaeth llawer adnabod y mesur mydr ac odl yn gywir, ond dywedodd nifer taw englynion milwr oedd y mesur, ac eraill wedi drysu gan ddweud taw mesur caeth oedd mydr ac odl. Y goreuon yn unig oedd yn trafod effeithiolrwydd y mesur yma. Roedd rhai'n tueddu i esbonio beth yw nodweddion y mesur yn hytrach na chynnig esboniadau am addasrwydd a pherthnasedd y mesur, er taw prin oedd yr ymgeisiwyr hynny. Y teimlad felly yw bod adnabyddiaeth, dealltwriaeth ac esboniad yr ymgeisiwyr wrth drafod mesur cerddi, dipyn yn well na'r hyn a welwyd yn y gorffennol.

Barn/Ymateb Personol

Gwelwyd bod bron pawb wedi ymateb yn bersonol i'r cerddi, gyda nifer yn nodi rhesymau teilwng dros apêl y cerddi. Roedd nifer o'r ymgeisiwyr yn medru nodi eu bod yn gallu uniaethu â neges y cerddi am amryw o resymau personol, wrth drafod eu hatgofion, pwysigrwydd gobaith a'r defnydd o ddychymyg. Ysgrifennodd yr ymgeisiwyr am y ffaith eu bod hwythau hefyd yn hoffi holi am y byd o'u cwmpas, perthynas a phwysigrwydd teulu, bod neges o obaith a chariad yn gorchfygu ac yn un bwysig i'w cenhedlaeth nhw, ac yn y blaen.

Gwallau Cyffredin

Gwelwyd rhai termau neu eiriau yn cael eu cymysgu neu eu camddefnyddio/camsillafu yn gyson:

Cymysgu 'beirdd/bardd' e.e. 'Mae beirdd Y Sbectol Hud...'

Yn lle dweud 'yn debyg': dweud 'Pethau sydd yn *syml*'

Yn lle 'pennill': defnyddio 'pennod', 'paragraff' '*verses*' a '*stanza*'

'Ysgrifennwr' yn lle 'bardd'. 'Paragraff' yn lle 'pennill'. 'Y cerdd hwn', 'mae'r dau cerdd yn', 'yn y paragraffau hwn' a.y.y.b

'Cyffroes' yn lle 'cyffrous', 'bod mae', 'yn fy mharn i', 'y pennill ail'.

Roedd rhai ymgeisiwyr wedi treulio gormod o amser yn dadansoddi ystyr y teitl, er nad oedd eu hatebion yn cyfrannu rhyw lawer at gynnwys eu traethodau nac yn cyd-fynd â themâu a chynnwys y cerddi.

Y prif wahaniaeth rhwng y rhai sy'n cyrraedd y marciau uchaf a'r gweddill yw'r ffaith eu bod yn anelu at drafod y cynnwys yn fanwl. Roedden nhw'n rhoi sylw manwl i bob rhan o'r cerddi. Roedden nhw hefyd yn gwneud mwy na chyfeirio at arddull yn unig. Roedden nhw'n llwyddo i drafod pam mae'r nodweddion yn effeithiol.

Haen Uwch

Y Coed (Gwenallt) Yr Hen Ddinas Newydd (Bryan Martin Davies)

Cynnwys

Roedd y ffaith bod y ddwy gerdd yn wahanol o ran hyd wedi profi'n her i rai ymgeisiwyr. Yn anorfod roedd llawer mwy i'w drafod o fewn 'Y Coed', ond serch hynny fe gafwyd trafodaeth ddofn ar gynnwys ac arddull 'Yr Hen Ddinas Newydd' yn ogystal gan nifer o'r ymgeisiwyr.

Roedd hi'n braf gweld dealltwriaeth dda o gynnwys y ddwy gerdd ar draws yr ystod gallu o fewn yr Haen Uwch. Her i bob ymgeisydd fyddai trafod cynnwys 'Y Coed' o fewn terfynau amser yr arholiad a llwyddo i wneud cyfiawnder â phob rhan ohoni'n gytbwys, ond gellir dweud i wyafrif yr ymgeisiwyr lwyddo i wneud hynny a threfnu eu hamser yn effeithiol. Llwyddwyd i esbonio'r cynnwys, agwedd y bardd a'r neges yn hyderus, gan ddyfynnu'n bwrpasol.

Braf hefyd oedd gweld dealltwriaeth dda ac ymateb brwd i'r ail gerdd. Arweiniodd 'Yr Hen Ddinas Newydd' at drafodaeth dda ac aeddfed iawn ar brydiau. Llwyddodd pawb i ddeall rhyw elfen o'r gerdd hon, a'r mwyafrif yn deall ei neges yn glir ac yn gweld digon o gyfleoedd i gymharu'n hyderus. Cafwyd sylwadau cofiadwy am 'hadau blodau'r haul' yn atgoffa'r ymgeisydd o'r dywediad 'daw eto haul ar fryn' gan groniclo'r neges a'i ddealltwriaeth ohoni i'r dim.

Roedd diffygion y dylid cyfeirio atynt yng ngwaith rhai ymgeiswyr o ran trafod cynnwys 'Y Coed' e.e. y duedd gan rai i feddwl bod y 'chwe miliwn' yn cyfeirio at filwyr a laddwyd yn yr Ail Ryfel Byd, gan gollir cyfle i drafod yr Holocaust. Roedd rhai ymgeiswyr yn trafod hanner cyntaf y gerdd yn fanwl, ond am ryw reswm yn colli plwc ac yn rhoi brawddeg neu ddwy yn unig am yr ail hanner. Yn rhy aml hefyd, gwelid ymgeiswyr yn mynd heibio'r cwpled sy'n cyfeirio at y 'tair croes' a'r 'Unig Un' ac felly'n colli cyfle i ymhelaethu am Gristnogaeth Gwenallt. Yn 'Yr Hen Ddinas Newydd' gwelwyd ambell un yn camddehongli'r 'hen ffrindiau' gan feddwl bod pobl ar goll yn dilyn rhyfel a'r gerdd yn sôn am eu haduniad. Credai rhai hefyd fod y ferf 'dychwelodd' yn cyfeirio at 'ryfel' ac wedyn yn mynd ymlaen i gymharu hynny gyda 'Y Coed' a dychweliad parhaus rhyfeloedd i'n byd.

Arddull

Braf yw gweld defnydd cynyddol o dermau beirniadaeth lenyddol yng ngwaith yr ymgeiswyr bob blwyddyn, a'r arfer o ddadansoddi effaith nodwedd arddull yn amlwg yn cael ei meithrin yn y canolfannau.

Roedd yr ymgeiswyr yn llwyddo i enwi nodweddion arddull, enghreifftio, a thrafod effaith gan gwblhau'r cylch yn grwn gan amlaf. Âi'r goreuon yn eu blaenau i gymharu defnydd y ddau fardd o nodweddion arddull gan lwyddo, trwy hyn, i roi ymateb treiddgar ynglŷn â neges ac agwedd y beirdd e.e. y cyferbyniad yn y defnydd o ansoddeiriau yn y ddwy gerdd, rhwng y 'barbaraidd' a'r 'cynnes' / 'clyd' / 'taclus'; rhwng arddull foel a diaddurn 'Y Coed' a'i phrinder ansoddeiriau, a'r cynnydd yn yr ansoddeiriau cadarnhaol wrth i'r 'Hen Ddinas Newydd' fynd rhagddi a hynny'n cyd-fynd â'r neges obeithiol.

Yn aml, llwyddwyd i enwi'r mesur yn gywir, a braf gweld canolfannau'n osgoi'r arfer o hyfforddi ymgeiswyr i fanylu ar union natur a gofynion mesur. Yn hytrach, cafwyd sylwadau perthnasol ar effaith mesur mydr ac odl 'Y Coed' i gyfleu'r neges. Roedd ambell i ganolfan wedi hyfforddi'r ymgeiswyr yn dda i drafod y llinell unigol / torri ar y patrwm yn 'Y Coed' ac arwyddocâd hynny, ond efallai iddynt golli cyfle i gysylltu hyn yn uniongyrchol â'u sylwadau ar y mesur.

Roedd nifer yn gallu adnabod mesur penrhydd 'Yr Hen Ddinas Newydd', ond llai yn gallu awgrymu rheswm dros ei effeithiolrwydd. Sylwodd y goreuon ar batrwm gweledol y llinellau ar y ddalen yn creu ffurf y ddinas yn ailymddangos unwaith eto. Ardderchog!

Ymateb personol

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn tueddu i atodi paragraff ar ddiwedd y traethawd er mwyn ymdrin â'r agwedd hon ar ofyniad y cwestiwn. Mae hynny'n iawn, ond roedd y rhai sy'n llwyddo orau i roi eu hymateb personol wedi gwneud hynny'n gyson trwy gydol y traethawd ac mewn manau lle cyfyd y cyfle'n naturiol i wneud hynny. Roedd tuedd i'r ymateb fod yn annaturiol a systematig o'i roi fel paragraff unigol ar y diwedd.

Wedi dweud hyn, cafwyd ymateb gwirioneddol ysbrydoledig gan rai ac roedd hi'n braf gweld barn glir ac agweddau pobl ifanc at ddigwyddiadau byd eang, a'u ffydd yn y ddynoliaeth er gwaethaf rhybuddion Gwenallt. Ysgogodd y cerddi hyn sylwadau aeddfed a threiddgar fydd yn aros yn y cof yn hir.

Ffurf a chynllun atebion

Daw'n amlwg wrth farcio gwaith canolfannau fod yr ymgeiswyr yn cael eu trwytho i ddilyn dull penodol o ateb. Mae hyn yn amlwg yn dangos ôl paratoi gofalus ac arweiniad clir a da i ymgeiswyr, ond weithiau gall strwythur rhy gaeth gyfyngu ar ryddid yr ymgeisydd i ymateb yn greadigol a chymharu'n bwrpasol mewn mannau.

Roedd un ganolfan yn amlwg yn hyfforddi'r ymgeiswyr i ymdrin â hanner cyntaf y gerdd osod, yna hanner cyntaf yr ail gerdd, wedyn gweddill y gerdd osod ac yna cloi gydag ail hanner yr ail gerdd. Y broblem gyda hyn oedd bod rhai yn ei gweld yn anodd rhannu'r cerddi yn ddwy ran naturiol, ac o'r herwydd fe gollwyd llif y trafod gan greu traethawd herciog braidd.

Y cyngor gorau fyddai trafod cynlluniau amrywiol, a rhoi digon o gyfleoedd i ymgeiswyr ymarfer eu crefft. Mae cynllunio'r ateb cyn dechrau ar y traethawd yn yr arholiad ei hun, yn talu ar ei ganfed o ran adeiladwaith a threfn yr ateb.

Meysydd i'w hystyried ar y ddwy haen:

- Dylid sicrhau bod yna drafodaeth lawn ar gynnwys y ddwy gerdd.
- Mae angen defnyddio termau yn gywir e.e. cyffelybiaeth, trosiad, personoli (nid personoliaeth).
- Wrth ddyfynnu dylid anelu at osod llinellau'r cerddi fel y maen nhw'n ymddangos yn y gerdd.
- Rhaid cofio cymharu'r ddwy gerdd o fewn yr ateb. Roedd rhai ymgeiswyr heb gymharu o gwbl.
- Dylid cofio perthnasu'r mesur i'r cynnwys. Nid yw'n ddigon nodi nodweddion y mesur yn unig.

Diolch i'r canolfannau am barhau i hyfforddi'r ymgeiswyr eleni mewn modd trylwyr a phroffesiynol.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk